

Cyfeirnod(au) y Papur

6957/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd

Cronfa Ddata

Ionawr 2010

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

W37930A



W850/R6957/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2010 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Senario

Mae Elisha Bonda yn berchen ar gwmni o'r enw Elisha Bonda Fashionfones (EBF). Mae'n marchnata ei amrywiaeth ei hun o ffonau symudol, pob un ohonynt â dewis o wahanol nodweddion, fel Bluetooth. Mae EBF hefyd yn cynnig pecynnau talu amrywiol sy'n para am 12, 18 neu 24 mis.

Mae Elisha yn ymwneud yn bennaf â golwg y ffonau. Mae ei syniadau marchnata yn well na'i system ar gyfer cadw cofnodion. Mae ei chyfrifydd wedi ei rhybuddio hi bod angen ymagwedd (*approach*) a fwy proffesiynol arni at fusnes os yw ei chwmmi yn mynd i lwyddo.

Mae system bresennol y cwmni yn defnyddio cofnodion papur am gwsmeriaid, contractau a ffonau. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac mae'n wallus. Mae'n anodd i Elisha fonitro gwerthiant ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yn unol â chyngor ei chyfrifydd, mae Elisha wedi'ch cyflogi chi i ddylunio, gweithredu (*implement*) a phrofi cronfa ddata berthynol a fyddai o fantais i'w chwmmi hi o safbwynt:

- cadw cofnodion manwl gywir
- effeithlonrwydd (*efficiency*)
- gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

Mae Elisha yn glir iawn ynghylch beth mae hi eisiau i'r gronfa ddata ei wneud. Mae angen i'r gronfa allu:

- cofnodi a diweddarau manylion cwsmeriaid
- cofnodi a diweddarau manylion contractau
- caniatáu i staff weld manylion cwsmeriaid a chontractau o ystod o ddata mewnbwn
- dangos pryd bydd dim ond mis cyn diwedd contract
- dilyn lefelau stoc o'r ffonau
- cynhyrchu adroddiadau a negeseuon os yw lefelau'r stoc yn disgyn islaw'r lefel ailarchebu
- cynhyrchu adroddiadau am werthiant.

Uwchlaw pob dim, mae'n rhaid i ryngwynebau'r gronfa ddata fod yn glir, wedi'u cyflwyno'n dda a bod yn sythweledol (*intuitive*).

Mae Elisha yn sylweddoli bod pobl yn gallu gwneud camgymeriadau felly mae hi wedi gofyn i chi roi amrywiaeth o fesurau ar waith i atal data annilys (*invalid*) rhag cael ei gofnodi.

Pan fydd contract yn cael ei sefydlu, caiff manylion cyfrif banc y cwsmer eu cofnodi. Bydd taliadau misol wedyn yn cael eu gwneud trwy ddebyd uniongyrchol. Nid oes angen i system y gronfa ddata gadw trywydd taliadau. Caiff hyn ei wneud yn foddhaol gan y clerc cyfrifon ac nid yw Elisha eisiau newid hyn ar hyn o bryd.

Mae gan rai cwsmeriaid fwy nag un contract. Cafodd y rhan fwyaf o'r contractau presennol eu gwneud ar ffurf pecynnau 12 mis ond mae Elisha eisiau ennyn diddordeb cwsmeriaid mewn pecynnau am 18 neu 24 mis gan fod y rhain yn fwy proffidiol (*profitable*).

Mae amrywiaeth o ffonau gwahanol ar gael. Gall unrhyw ffôn gael ei gysylltu ag unrhyw becyn.